# HATTON, ANN JULIA ('Ann of Swansea'; 1764-1838), bardd a nofelydd

**Enw:** Ann Julia Hatton
**Ffugenw:** Ann Of Swansea
**Dyddiad geni:** 1764
**Dyddiad marw:** 1838
**Priod:** William Hatton
**Priod:** C. Curtis
**Rhiant:** Sarah Kemble (née Ward)
**Rhiant:** Roger Kemble
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** bardd a nofelydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
**Awdur:** Cecil John Layton Price

Ganwyd 29 Ebrill 1764 yn Worcester, seithfed plentyn Roger Kemble a Sarah Ward. Gan ei bod yn gloff ni allai ddilyn yn ôl traed ei rhieni a dyfod yn actres, a chyn ei bod yn 19 oed bu mor anffodus â phriodi a chael ei gadael gan ddyn anturus a diegwyddor o'r enw Curtis. Cyhoeddodd, gyda chymorth tanysgrifwyr, *Poems on Miscellaneous Subjects* (London, 1783). Priododd William Hatton yn 1792 ac aeth gydag ef i America. Cymerodd y ddau brydles ar y Swansea Bathing House yn 1799. Pan fu farw ei gwr yn 1806 symudodd Ann i Gydweli lle y bu'n cadw ysgol dysgu dawnsio. Yn 1809 dychwelodd i Abertawe ac ymroi i ysgrifennu, gan gael ei chynnal gan flwydd-dâl a roddid iddi gan J. P. Kemble a Sarah Siddons. Ysgrifennodd ddrama o'r enw *Zaffine* i'r actiwr ieuanc Edmund Kean. Dengys ei *Poetic Trifles* (Waterford, 1811) fod ganddi beth dawn telynegol. Rhwng 1815 a 1831 ysgrifennodd ddwsin o nofelau o leiaf. Bu farw 26 Rhagfyr 1838.

## Awdur

**Cecil John Layton Price**, (1915 - 1991)

## Ffynonellau


Swansea Corporation Hall Day Minute Book, 1783-1821, 286

T. Campbell, *Life of Mrs. Siddons* (Llundain 1834), 1834, 8

catalog llyfrau y British Museum

'Ann of Swansea', *Cymru Fu*, 12 Hydref 1889

*Yr Herald Cymraeg*, 26 Ionawr 1935


## Darllen Pellach


Jim Henderson, 'Ann of Swansea : a life on the edge', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. 34, rh. 1 (2006), tt. 1-47

Ivor J. Bromham, '"Ann of Swansea" (Ann Julia Hatton: 1764–1838)', *The Glamorgan Historian*, 7 (1971), tt. 173–86

Moira Dearnley, 'Condem'd to wither on a foreign strand' : Moira Dearnley on the 1833-34 manuscript poems of Ann of Swansea', *New Welsh Review*, 41 (1998), tt. 56-9

Ivor J. Bromham, 'Ann of Swansea - poet and actress', *Country Quest*, 26/11 (1986), tt. 24-5

Steve Chambers, 'The forgotten Kemble! : remembering the little-known sister of famous actress Sarah Siddons', *Country Quest*, (April 1998), pp. 10-11

Ann Julia Hatton, *Cambrian pictures* (Aberystwyth 2021)

Cyngor Abertawe: Ann o Abertawe (Ann Julia Hatton, Kemble gynt)

Erthygl Wicipedia: Ann Hatton


## Delweddau

ArtUK: Ann of Swansea (1764–1838)

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: NLW MS 23958C: Ann of Swansea manuscript

VIAF: [62276845]

Wikidata: [Q4766446]

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu